**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/413/2023
Ein cyf/Our ref CG/PO/413/2023

1af Rhagfyr 2023

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd 2023 ynglŷn â gweithredu Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Yn eich gohebiaeth, gwnaethoch ofyn am drosolwg o'r llinell amser ddisgwyliedig ar gyfer gweithredu'r diwygiadau etholiadol cyn etholiad 2026, gan gynnwys amserlenni sy'n gysylltiedig â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau"). Gwnaethoch hefyd ofyn imi roi syniad o natur a maint y newidiadau yr oeddwn yn rhag-weld y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cynnig mewn ymgynghoriad ar y Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

Fel y gwyddoch, mae'r Senedd wrthi'n craffu ar ddau Fil sy'n ymwneud â diwygio etholiadol (Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)).

Ni fydd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn"), fel y bydd bellach yn cael ei alw, y swyddogaeth gyfreithiol i ddechrau a chynnal adolygiad o ffiniau'r Senedd nes bydd y ddarpariaeth sy'n rhoi'r swyddogaeth honno yn cael ei chychwyn y diwrnod ar ôl i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gael y Cydsyniad Brenhinol. Fel y nodwyd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Biliau Diwygio, rhagwelir y bydd y Comisiwn yn dechrau paru'r 32 o etholaethau Senedd y DU ym mis Awst 2024. Mae'r Bil yn darparu y bydd adroddiad terfynol y Comisiwn ar baru'r etholaethau yn cael ei gwblhau erbyn 1 Ebrill 2025. Bydd hyn wedyn yn galluogi'r Offeryn Statudol i weithredu'r 16 o etholaethau'r Senedd i gael ei ddrafftio a'i wneud gan Weinidogion Cymru.

Ochr yn ochr â gwaith y Comisiwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar fersiwn ddrafft o Orchymyn Cynnal Etholiadau dwyieithog wedi'i gydgrynhoi. Bydd hyn yn cyd-fynd â'n huchelgais i gydgrynhoi'r llyfr statud ar gyfer Cymru lle gallwn, i ddarparu fframwaith deddfwriaethol hygyrch a dwyieithog. Rydym yn bwriadu cymryd camau i gydgrynhoi'r gyfraith etholiadol yng Nghymru ar gyfer etholiadau datganoledig, fel rhan o'n nod tymor hwy o foderneiddio cyfraith etholiadol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau Senedd Cymru. Mae'n nodi'r ffordd i gynnal yr etholiad a'r ymgyrch etholiadol, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer herio'r etholiad yn gyfreithiol. Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio yn flaenorol cyn pob etholiad i'r Senedd.

Cafodd y Gorchymyn ei wneud yn wreiddiol a'i ddiwygio wedyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn i'r swyddogaeth o wneud y Gorchymyn gael ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Cymru 2017 (a ddiwygiodd adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Gan fod y Gorchymyn gwreiddiol wedi'i wneud yn 2007, mae hwn yn gyfle gwerthfawr inni gydgrynhoi ac ailddatgan y gyfraith fel rhan o fframwaith hygyrch a dwyieithog am y tro cyntaf.

Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried yr egwyddorion sydd wedi'u nodi yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ac yn ceisio llunio Gorchymyn gan ddefnyddio iaith fodern a chlir sy'n ddealladwy i'r darllenydd. Bydd hyn yn cynnwys, fel y nodwyd gennych, newidiadau i ddyluniad papurau pleidleisio, yn sgil y newid i un system ethol ar gyfer pob Aelod.

Cyn etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026, bydd y Comisiwn Etholiadol yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau yn ymwneud â gweinyddu etholiadau. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i sicrhau bod y gwaith o fabwysiadu'r gwahanol brosesau gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â'r etholiad yn mynd rhagddo'n esmwyth. Yn ogystal â'r is-ddeddfwriaeth arferol sy'n rhagflaenu etholiadau'r Senedd, gan gynnwys y Gorchymyn Anghymhwyso a'r Gorchymyn Taliadau Swyddogion Canlyniadau, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r system etholiadol newydd.

Dyma ddiagram sy'n dangos yr amserlenni ar gyfer y prosesau hyn.



Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution